# City & Guilds Lefel 2/3

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

## Canllaw ar Gyflwyno'r Cymhwyster



## Fersiwn

Chewfror 2023 Fersiwn 2.0

## Pwrpas y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn atodol i **Lawlyfr a Phecyn Asesu'r Cymhwyster**, a chafodd ei llunio i gynorthwyo rheolwyr ac aseswyr drwy daith yr ymgeisydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar helpu'r ymgeisydd drwy'r broses asesu, o'i dechrau i'w diwedd.

Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad ar gyfer y cymwysterau canlynol:

**Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**
**Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| **2.0 (Chewfror 2023)** | Canllawiau wedi'u diweddaru | Adran 3 |

# **Adran 1:** Cyflwyniad

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw datblygu gweithlu gofal plant medrus, sy'n uchel ei fri fel proffesiwn a gyrfa ddelfrydol, ac yn cael ei gydnabod am y rôl hanfodol mae'r sector yn ei chwarae wrth helpu plant i ddatblygu.

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru.  Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ymgeiswyr, teuluoedd/gofalwyr a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC, (***y Consortiwm***) i ddatblygu cyfres newydd o 19 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.  Mae'r Consortiwm wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig.  Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

I gael gwybod mwy am adolygiad Cymwysterau Cymru ewch i https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

## Sut mae'r cymwysterau hyn yn wahanol i gymwysterau blaenorol?

Datblygwyd y cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer i adeiladu ar ganfyddiadau'r adolygiad Sector a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru. Mae'r dull o ddatblygu'r cymwysterau hyn, a chynllun y gwaith asesu, wedi dilyn egwyddorion allweddol a amlinellir yn yr adolygiad hwn, er enghraifft:

- Datblygu cyfres newydd o gymwysterau i ymgeiswyr yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn llai cymhleth a sicrhau eu bod o ansawdd uwch;
- Datblygu dulliau cyfannol a chreadigol o asesu cymhwysedd ymgeiswyr wrth iddyn nhw astudio cymwysterau;
- Datblygu asesiadau sy'n lleihau'r baich, ac yn canolbwyntio ar gymhwysedd.

Mae hyn wedi arwain at rai gwahaniaethau allweddol o gymharu â chymwysterau blaenorol, yn enwedig o ran y canlynol:

- **Strwythur cynnwys y cymwysterau.** Mae cynnwys y cymwysterau wedi'i strwythuro ychydig yn wahanol, yn enwedig o ran y ffordd mae'r cynnwys yn cael ei ategu gan uned orfodol sy'n ymdrin â'r holl egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau sydd eu hangen ar ymgeiswyr yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Rhoddir mwy o wybodaeth am yr unedau hyn a'r dull asesu yn Adran 2.
  Hefyd, mae'r cynnydd yn y cynnwys sydd wedi'i nodi a'i bennu'n orfodol yn helpu i atgyfnerthu ymhellach y gallu i gymharu'r cymwysterau hyn i ymgeiswyr a chyflogwyr, gan atgyfnerthu'r broses o gyflwyno set sgiliau hanfodol sydd ei hangen ar weithwyr yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.
- **Synergedd â chymwysterau eraill.** Datblygwyd cynnwys yr unedau gorfodol i gyd-fynd yn glir â'r cynnwys o ran gwybodaeth yng nghymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn bydd ymgeiswyr yn meddu ar sylfaen wybodaeth glir i symud ymlaen i'r cymhwyster seiliedig ar ymarfer hwn.
- **Dull asesu'r cymhwyster hwn.** Bwriedir i'r dull asesu ddilyn model mwy cyfannol; cefnogir canolfannau ac aseswyr i gasglu tystiolaeth ar gymhwysedd ymgeisydd mewn ffordd fwy crwn, cadarn a manwl gywir.
- **Lleihau'r baich asesu ar yr ymgeisydd**. Datblygwyd y cynnwys i leihau'r angen am ailadrodd yn ystod y broses asesu; yn hytrach mae'n canolbwyntio ar atgyfnerthu cysondeb gofal a chymorth o ansawdd uchel, sy'n datblygu llais yr unigolyn a'r plentyn, ynghyd â'i allu i ddewis a chymryd rhan er mwyn cyflawni canlyniadau.

# Adran 2:
# Trosolwg asesu

Pwrpas yr adran hon yw rhoi trosolwg o'r broses asesu ar gyfer y cymhwyster hwn. I gael manylion penodol am yr asesiadau eu hunain, trowch at y **Pecyn Asesu** perthnasol ar gyfer y cymhwyster dan sylw.

## Cefndir

Mae'r broses asesu ar gyfer y cymwysterau hyn wedi cael ei datblygu mewn ymateb i adolygiad sector Cymwysterau Cymru, ac er mwyn helpu i sefydlu dull asesu sy'n manteisio ar ymarfer gorau o bob rhan o'r sector. Wrth gynllunio a datblygu'r broses asesu ar gyfer y cymhwyster hwn, edrychodd Consortiwm City & Guilds a CBAC ar ffyrdd mwy cyfannol o gynnal asesiad. Rhesymeg mabwysiadu dull asesu cyfannol yw helpu i sicrhau bod yr asesiad yn canolbwyntio ar allu/cymhwysedd 'cyffredinol' yr ymgeisydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar elfennau unigol neu feysydd ymarfer ar wahân wrth asesu.

## Trosolwg asesu

Cynlluniwyd yr asesiad mewn ffordd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddefnyddio'r 'pecyn cymorth' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd ganddo wrth astudio'r cymhwyster hwn er mwyn gweithio mewn ffordd bur dda gydag amrywiaeth o blant a'u teuluoedd/gofalwyr, gan gefnogi eu datblygiad, iechyd a llesiant cyfannol.

Mae'r dull asesu hwn yn pwysleisio wrth ymgeiswyr bwysigrwydd popeth maen nhw'n ei ddysgu, a pha mor ymarferol ydyw, wrth weithio yn y sector, ac mae'n eu helpu i ddysgu i gymryd cyfrifoldeb am roi eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar waith mewn sefyllfa ymarferol; maen nhw'n cael meithrin annibyniaeth, ymreolaeth a hyder yn unol â'u rolau swyddi a'u swyddogaethau.

## Cynllun yr asesu

Cynlluniwyd y dull broses asesu ar gyfer y cymhwyster hwn mewn ffordd sy'n hwyluso'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer amrywiaeth o unedau gwahanol o fewn y cymhwyster.

### Lefel 2

Prif gyfrwng asesu'r cymhwyster hwn fydd cyfres o dasgau strwythuredig, a phortffolio. Cynlluniwyd y gweithgareddau asesu hyn i ategu model casglu tystiolaeth cyfannol; cefnogir ymgeiswyr i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau o wahanol unedau a deilliannau dysgu yn yr un gweithgaredd, gan leihau unrhyw ailadrodd diangen wrth asesu.

Mae'r tasgau yn gofyn i'r ymgeisydd integreiddio ei wybodaeth a'i sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector o ran darparu gofal a chymorth effeithiol. Felly, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb ymarfer yr ymgeisydd.

Mae'r asesiad hefyd yn darparu cyfle i gael trafodaeth atgyfnerthol; gan roi cyfle i'r ymgeisydd a'r aseswr i fyfyrio ar yr asesiad, ac i'r aseswr benderfynu ar y deilliant asesu terfynol.

**Lefel 3**

Prif gyfrwng asesu'r cymhwyster hwn fydd cyfres o dasgau strwythuredig, a phortffolio. Cynlluniwyd y gweithgareddau asesu hyn i ategu model casglu tystiolaeth cyfannol; cefnogir ymgeiswyr i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau o wahanol unedau a deilliannau dysgu yn yr un gweithgaredd, gan leihau unrhyw ailadrodd diangen wrth asesu. Mae'r tasgau yn gofyn i'r ymgeisydd gwblhau cyfres o arsylwadau ar blentyn neu blant yn ei leoliad, gan sicrhau bod nodau datblygu plant yn sail i arwain y tasgau eraill.

Mae'r tasgau yn gofyn i'r ymgeisydd integreiddio ei wybodaeth a'i sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector o ran darparu gofal a chymorth effeithiol. Felly, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb ymarfer yr ymgeisydd.

Mae'r asesiad hefyd yn cynnwys trafodaeth broffesiynol yn seiliedig ar werthusiad o asesiad yr ymgeisydd; mae hyn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd a'r aseswr fyfyrio ar yr asesiad, ac i'r aseswr adolygu lefel myfyrio gwerthusol yr ymgeisydd er mwyn penderfynu ar y deilliant asesu terfynol.

**Gofynion defnyddio tystiolaeth**

Yn y cymwysterau hyn, mae nifer o unedau nad yw efallai'n ymarferol eu hasesu fel rhan o'r tasgau strwythuredig ym mhob lleoliad/sefyllfa. Yn achos yr unedau hyn yn unig; datblygwyd gofynion o ran tystiolaeth sy'n amlinellu'n benodol y dystiolaeth sy'n ofynnol cyn y gellir dod i farn am yr asesiad.

Lle gellir defnyddio gofynion o ran tystiolaeth i asesu uned, nodir y rhain yn glir yng nghanllawiau Uned Llawlyfr y Cymhwyster. Dylai'r dystiolaeth ar gyfer y gofynion hyn gael ei chasglu fel rhan o elfen Portffolio'r asesiad.

***Cefnogi/Hybu Ymarfer Craidd***

Mae uned orfodol yn sail i'r cymwysterau hyn sy'n adlewyrchu gwerthoedd, egwyddorion ac ymddygiadau craidd y sector a ddylai gael eu dangos yn barhaus wrth ymarfer. Bwriedir i'r cynnwys hwn ategu'r holl gynnwys arall ac, felly, dylai gael ei asesu mewn modd cyfannol yn barhaus drwy'r tasgau strwythuredig a thrwy dystiolaeth a gynhyrchir ar gyfer y portffolio. Sail y cynnwys hwn yw datblygiad ymarferol y wybodaeth sylfaenol graidd a ddatblygwyd drwy gymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd, gan gefnogi'r gwaith o fewnblannu a datblygu'r wybodaeth graidd hon fel rhan o ymarfer yr ymgeisydd.

# Adran 3:

## Cefnogi prosesau addysgu, dysgu ac asesu ardderchog

Nod yr adran hon yw cefnogi'r gwaith o gyflwyno cynnwys y cymhwyster, a helpu i gefnogi pawb sy'n ymwneud â'r broses i baratoi ar gyfer yr asesiad, ac yn y pen draw i gwblhau'r cymhwyster.

### Rolau yn y broses

Gall y rolau canlynol fod yn rhan o brosesau addysgu, dysgu ac asesu'r cymhwyster hwn.

**Tiwtor** – meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster.

**Aseswr** – aseswr cymwysedig **-** arsylwi ar y tasgau, cwblhau'r drafodaeth a chymeradwyo'r cymhwyster yn derfynol[1].

**Rheolwr** – tyst arbenigol – y rheolwr yw'r enw arno yn y ddogfen hon, a'r unigolyn hwn yw rheolwr llinell yr ymgeisydd. Bydd y rheolwr yn deall prosesau mewnol arferol y lleoliad, dogfennaeth, systemau cyfathrebu ac ati, a gall asesu p'un a yw'r ymgeisydd yn eu defnyddio'n briodol ai peidio. Bydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gynnydd gyda'r ymgeisydd er mwyn sicrhau bod tystiolaeth ar gael i gyflawni'r agweddau hynny nad oes ymdriniaeth ohonyn nhw yn yr arsylwadau ac unrhyw feysydd mae'r aseswr yn gofyn amdanyn nhw. Lle y bo'n briodol gall ddarparu tystiolaeth fel tyst arbenigol o ran ymarfer dyddiol y gweithle.
***Mentor*** **–** mewn rhai lleoliadau/sefyllfaoedd, gall yr ymgeisydd gael cymorth mentor sy'n goruchwylio'r gweithle, ac yn darparu elfen o gymorth rheoli, os nad yn gyfan gwbl. Yn y lleoliadau/sefyllfaoedd hyn, gall y mentor gael rhywfaint o gyfrifoldeb y rheolwr.

**Gweithiwr Proffesiynol Arall** – tyst arbenigol – ar gyfer gweithdrefnau arbenigol neu unedau y mae angen arbenigedd penodol arnyn nhw, gall lleoliadau ddarparu neu ddefnyddio tystiolaeth ychwanegol gan dyst arbenigol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** – mae'n sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol.

Bydd y bobl sy'n ymwneud â'r asesu yn amrywio yn dibynnu ar amgylchedd y ganolfan. Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu'n bennaf at Reolwyr ac Aseswyr. Dylid nodi, yn dibynnu ar y lleoliad, y gall rhai unigolion yn y broses gyflawni mwy nag un rôl ar yr amod eu bod yn ddigon profiadol i wneud hynny (e.e. gall y sawl sy'n cyflawni rôl y tiwtor hefyd gyflawni rôl yr aseswr).

At bwrpasau asesu, mae'n rhaid i'r pedwar arsylwad asesedig gael eu cyflawni gan aseswr cymwysedig, yn ogystal â'r drafodaeth derfynol a'r cam cymeradwyo. Gall cyfarfodydd parhaus ar gynnydd a gynhelir gan yr aseswr hefyd gael eu cynnal gan y tiwtor/rheolwr os yw'r unigolyn hwnnw'n ddigon cyfarwydd â'r broses asesu i allu cynorthwyo'r ymgeisydd i nodi tystiolaeth briodol ar gyfer y portffolio a gweithredu fel tyst arbenigol os oes angen.

**Noder**

---

[1] I gadarnhau gofynion asesu'r cymhwyster hwn, trowch at **Lawlyfr y Cymhwyster**

Mewn amgylchiadau lle mae'r ymgeisydd yn gweithio mewn sefyllfa lle nad oes rôl reoli uniongyrchol, fel sefyllfa gweithiwr unigol (e.e. gwarchodwr plant), byddai disgwyl i elfennau proses y rheolwr gael eu cyflawni gan yr aseswr yn unig.

## Cysoni rolau yn y broses

Mae'r broses o asesu'r cymhwyster hwn yn gofyn am waith partneriaeth agos rhwng gwahanol unigolion, yn enwedig y rheolwr a'r aseswr. Mae'r fath gysoni yn helpu i ddangos pa mor bwysig yw'r ddwy rôl i gryfder y broses asesu, ac mae'n helpu i fewnblannu proses asesu gadarnach, â phwyslais penodol. Drwy gysoni rolau, gellir sicrhau cwlwm cliriach rhwng yr ymgeisydd, y rheolwr a'r aseswr, gan, yn y pen draw, sicrhau sail fanylach i'r broses asesu ac i gynorthwyo'r ymgeisydd drwy'r asesiad.

Gwerthfawrogir, mewn rhai lleoliadau, ac wrth ddechrau cyflwyno'r cymwysterau hyn, na fydd rheolwyr efallai'n teimlo y gallan nhw ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer yr asesiad. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r rheolwr siarad â'r aseswr a defnyddio ei arbenigedd ym maes asesu i'w helpu i fagu hyder yn y rôl. Os bydd digon o bryder nad yw'r rheolwr yn gallu darparu'r holl gymorth sydd ei angen ar gyfer yr asesiad, yna gall yr aseswr gefnogi elfennau'r asesiad sydd dan arweiniad y rheolwr. Yn y sefyllfa hon, rhaid i'r rheolwr gysgodi'r aseswr, gyda'r nod o uwchsgilio a datblygu er mwyn iddo allu darparu'r cymorth sydd ei angen o'i rôl mewn gweithgareddau yn y dyfodol.

## Cefnogi llwyddiant

Er mwyn cefnogi ymgeiswyr ar ddechrau'r broses, dylai rheolwyr/aseswyr ddarparu dealltwriaeth o'r unedau opsiynol sydd ar gael yn y cymhwyster. Dylid rhoi arweiniad sy'n cefnogi ymgeiswyr i ddeall a dewis yr unedau mwyaf buddiol iddyn nhw yn eu rôl bresennol/gyrfa yn y dyfodol.

Er mwyn gwneud hyn; dylai'r rheolwr a'r aseswr fod yn gyfarwydd â'r unedau sydd ar gael; a sut mae cynnwys pob uned yn cefnogi gwahanol rolau yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Gall rheolwyr/aseswyr gael mwy o gymorth ar yr unedau a ddatblygwyd ar gyfer y cymhwyster hwn a sut mae'r rhain yn cefnogi gwahanol rolau yn y sector, drwy gyfeirio at:

- Canllawiau'r Consortiwm (gan gynnwys **Llawlyfr y Cymhwyster**)
- Gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru [Rhestr o gymwysterau gofynnol]

## Sut i gynllunio

Mae cymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer yn cynnig cyfle i ganolfannau ailddiffinio ac ailgynllunio eu cynlluniau dysgu, addysgu ac asesu. Drwy ymdrin ag addysgu, dysgu ac asesu mewn ffordd gyfannol wrth fynd ati i gynllunio, gellir helpu ymgeiswyr i fagu hyder yn y cynnwys i'w ddysgu ac i baratoi'n dda ar gyfer yr asesiad. Bydd yn eu helpu i feithrin cysylltiadau ac ystyr ddyfnach, gan gynnwys dealltwriaeth gadarn o sut mae'r gwahanol elfennau yn cydblethu yn y sector. Bydd proses gynllunio gyfannol yn helpu tiwtoriaid i osgoi dyblygu, gwneud y defnydd gorau o'u hamser a herio ymgeiswyr i feistroli eu pynciau. Argymhellir y dylai staff canolfannau gydweithio ar gam cynllunio'r rhaglen, gan ddefnyddio'r cynnwys a nodir yn Llawlyfr y Cymhwyster i greu rhaglen sy'n diwallu anghenion a chyd-destunau eu hymgeiswyr orau. Dylai rôl adnoddau dysgu, llwyfannau dysgu ar-lein ac amgylcheddau dysgu hefyd gael ei hystyried yn ystod y cam hwn, ynghyd â sut y gallan nhw helpu i ymestyn a chefnogi'r hyn maen nhw'n ei ddysgu. Gan na fydd gwybodaeth, dealltwriaeth na sgiliau ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n ffurfiol tan ddiwedd y cymhwyster, mae'n bwysig bod tiwtoriaid yn llunio cynlluniau dysgu sy'n ailystyried ac yn adolygu pynciau allweddol, yn cynnwys digon o amser i wirio gwybodaeth ac yn defnyddio strategaethau seiliedig ar ymarfer fel projectau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn rhoi'r hyn maen nhw'n ei ddysgu at ei gilydd, ac yn gwneud cysylltiadau cadarn wrth i'r cymhwyster gael ei gyflwyno. Yn hytrach na meithrin gwybodaeth ar wahân, a ddilynir gan brawf uned o'r wybodaeth, bydd angen i diwtoriaid ailystyried

gwybodaeth drwy'r rhaglen ddysgu, gan feithrin cysylltiadau cadarn â gwybodaeth newydd, wrth ddatblygu dealltwriaeth ac ystyr synoptig drwy ymarfer yr ymgeisydd.

## Prosesau addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel

Un o elfennau allweddol cymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer yw'r uned ymarfer craidd Cefnogi/Hybu sy'n ffurfio uned orfodol o fewn y cymhwyster perthnasol. Dylai'r gwaith o gymhwyso'r egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau hyn yn ymarferol gael ei weld, nid ar wahân, ond fel sail i'r holl gynnwys a addysgir o fewn y cymhwyster a gyflwynir. Dylai'r cynnwys gael ei gynllunio a'i gyflwyno i fewnblannu ac ategu cynnwys pellach – gyda'r elfennau craidd yn cael eu hailystyried, eu hatgyfnerthu a'u mewnblannu'n barhaus. Dylai gweithgareddau a thasgau herio'r ymgeiswyr i gymhwyso eu gwybodaeth sylfaenol o bob rhan o'r cymhwyster er mwyn meithrin sgiliau technegol priodol a chywir.

Bydd gweithgareddau sy'n annog ymgeiswyr i ddysgu am eu dysgu, a meddwl am eu meddwl, yn ffordd ddefnyddiol o'u helpu i fyfyrio ar eu prosesau dysgu, magu eu hyder a dod yn fwy annibynnol. Gallai tiwtoriaid ystyried amrywiaeth o adnoddau a strategaethau dysgu, gyda'r rhai sy'n annog ymarfer annibynnol wrth i'r ymgeiswyr ddod yn gadarn eu gwybodaeth, ar ôl cael mwy o gyfarwyddyd ar y camau cynnar er mwyn meithrin gwybodaeth a magu hyder yn gyflym. Gall yr amrywiaeth o adnoddau a strategaethau dysgu gynnwys,

- Adnoddau dysgu myfyriol er mwyn helpu ymgeiswyr i werthuso eu dulliau dysgu a'u helpu i baratoi ar gyfer asesiad cyfannol, lle bydd disgwyl iddyn nhw esbonio eu meddyliau a'u rhesymeg dros eu camau gweithredu.
- Dysgu wedi'i wella gan dechnoleg er mwyn helpu i gefnogi a herio ymgeiswyr, ac ehangu eu dysgu.
- Dysgu seiliedig ar broblemau a gefnogir fel dull defnyddiol o annog ymgeiswyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn datrys problemau sy'n gysylltiedig â'r gwaith nad ydynt efallai yn codi yn y cyd-destun gwaith, ond lle gall fod yn bwysig i ymgeiswyr wybod sut i ymateb mewn sefyllfa petai'n codi.

Dylai gweithgareddau dysgu sy'n helpu'r ymgeisydd i ymgysylltu'n fwy â'r sector ehangach hefyd gael eu hannog fel rhan o elfen addysgu'r cymhwyster; bydd cyfleoedd allanol hefyd yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr gysylltu theori ac ymarfer ymhellach o'u lleoliad eu hunain â'r hyn sydd i'w weld fel rhan o ymarfer ehangach y sector.

Dylai ymgeiswyr gael eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau, hyfforddiant a fforymau o fewn y sector ehangach, fel rhai Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, ESTYN, partneriaid CWLWM, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae gweithgareddau o'r fath yn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddod yn ymwybodol o newyddion a themâu cyfredol a chyfoes o bob rhan o'r sector gofal chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae hyfforddiant a digwyddiadau fel y rhain yn werthfawr iawn o ran eu cyfredededd, a byddan nhw'n helpu ymgeiswyr i feithrin dealltwriaeth o ddigwyddiadau cyfredol yn y sector ehangach o fewn eu hymarfer – gan eu cefnogi i ddod yn fwy ymwybodol a chanolbwyntio mwy. Mae cyfleoedd o'r fath hefyd yn darparu datblygiad ychwanegol gwerthfawr sy'n sail i ymarfer da a DPP fydd yn cefnogi eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Er mai drwy ryngweithio uniongyrchol y bydd ymgeiswyr yn cael y budd mwyaf, mae'r defnydd o dechnoleg fel gweminarau byw yn cael ei annog hefyd er mwyn cynnig cynifer o ryngweithiadau a chyfleoedd â phosibl.

Dylai dealltwriaeth o'r dull asesu gael ei defnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cynnwys y cymhwyster. Mae'r model asesu sydd wedi'i fabwysiadu gan y Consortiwm ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'i fewnblannu mewn ffordd sy'n helpu ymgeiswyr i gael eu hasesu gan ddefnyddio ymarfer sefyllfaoedd gwaith go iawn; er enghraifft drwy ddefnyddio log myfyriol a thrwy arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol. Felly, byddai o fudd i'r rheolwr helpu'r ymgeisydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau

sy'n adlewyrchu'r asesiad byw drwy'r daith ddysgu, e.e. drwy gael ei gyflwyno i'r arfer o gadw log myfyriol yn gynnar yn y broses fel rhan o'r agwedd ar gyflwyno cynnwys bydd yr ymgeisydd yn gallu datblygu math o log myfyriol sydd fwyaf priodol i'w ddull o feddwl a datblygu ei hun, a fydd yn ei dro yn ei gefnogi yn ystod yr asesiad.

## Pwysigrwydd asesiad ffurfiannol

Mae asesiad parhaus a ffurfiannol yn rhan hanfodol o'r cyfnod dysgu. Mae asesiad ffurfiannol yn rhoi adborth hanfodol i staff canolfannau ar ba mor dda mae ymgeiswyr yn gwneud cynnydd, sut y gall fod angen iddyn nhw addasu eu cynlluniau cyflwyno a lle byddai'n fuddiol ailystyried ac atgyfnerthu meysydd allweddol o gynnwys y cymhwyster. Mae adborth ffurfiannol hefyd yn rhoi adborth i ymgeiswyr ar yr hyn mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i wella. Mae asesiad ffurfiannol a thargedau 'rhagborth' penodol i gyd yn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu hasesiad. Dylen nhw fod wedi dangos hyder o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gofynnol y cymhwyster i'w galluogi i lwyddo yn eu hasesiadau crynodol, ffurfiol ar ddiwedd eu taith ddysgu. Yn ystod y cyfnod dysgu, gall staff canolfannau ddarparu adborth manwl a chefnogol yn ystod ac ar ôl asesiad ffurfiannol ac ymarfer sy'n ddefnyddiol i wella deilliannau a dysgu. Mae'n arfer da annog ymgeiswyr i fyfyrio ar yr adborth hwn er mwyn nodi camau clir a fydd yn eu helpu i wella perfformiad yn y dyfodol. Gellir defnyddio nifer o strategaethau gwahanol er mwyn helpu ymgeiswyr i wneud cynnydd parhaus drwy eu cymhwyster

## Adnoddau asesu ymarferol:

Mae'r tabl isod yn darparu nifer o adnoddau a fyddai'n gallu cael eu defnyddio i helpu i gefnogi asesiad ffurfiannol ymgeiswyr drwy'r cymhwyster. Bwriedir i'r rhain weithredu fel canllawiau cymorth, a gall rhai fod yn fwy perthnasol nag eraill, yn dibynnu ar y lleoliad a/neu ddull dysgu'r ymgeisydd.

| | |
|---|---|
| **Gwirio gwybodaeth** | Gall gwirio'r hyn mae ymgeiswyr yn ei gofio yn rheolaidd helpu i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd drwy gwisiau ar-lein yn yr amgylchedd dysgu rhithwir, neu brofion wythnosol o gynnwys allweddol ar ddechrau sesiynau dysgu. |
| **Hunanasesiad** | Gall logiau dysgu helpu i annog ymgeiswyr i fyfyrio ar eu perfformiad a gwerthuso eu cynnydd. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth helpu ymgeiswyr i ddangos eu dyfalbarhad a deall effaith eu gweithredoedd. |
| **Adolygiadau myfyriol** | Annog ymgeiswyr i edrych ar sefyllfaoedd gan ddefnyddio cymhorthion myfyriol (e.e. drwy ddefnyddio model Rachel Rayner). |
| **Asesiad gan gymheiriaid** | Gall annog ymgeiswyr i adolygu a beirniadu dysgu ei gilydd helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r safon a ddisgwylir, a'r hyn mae angen iddyn nhw ei wybod, ei ddeall neu ei wneud er mwyn bodloni gofynion y rôl. |
| **Adolygu adborth** | Annog ymgeiswyr i ystyried adborth a gafwyd yn uniongyrchol gan blant neu eu teuluoedd a'u gofalwyr, a sut y gallan nhw ddefnyddio hyn yn eu dysgu a'u datblygu eu hunain. |
| **Sefyllfaoedd cysylltiedig â gwaith** | Gan weithio gydag eraill, gall staff cyflwyno greu sefyllfaoedd heriol a diddorol sy'n gofyn i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn cyd-destunau sy'n ymwneud â'r sector – efallai gan adlewyrchu sefyllfaoedd neu ehangu ar sefyllfaoedd yr arsylwyd arnynt, neu ystyried sefyllfa neu ganlyniad a allai fod yn llai tebygol o ddigwydd yn naturiol o fewn y sefydliad/lleoliad. |

## Cadarnhau bod ymgeiswyr yn barod i gael eu hasesu

Mae'n bwysig sicrhau mai dim ond pan fydd y rheolwr a'r aseswr yn hyderus bod yr ymgeisydd yn ddigon cymwys i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus y dylai gael ei asesu. Dylai hyn ddigwydd pan fydd y rhan fwyaf o'r dysgu wedi'i gyflwyno, ac yn dilyn rhaglen asesu barhaus a ffurfiannol. Mae'r cadarnhad hwn bod ymgeisydd yn barod i'w asesu yn gam pwysig i'r ymgeisydd, y rheolwr a'r aseswr gyfrannu ato.

Mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â pheidio â chynnal gwiriadau parodrwydd digonol cyn i'r ymgeisydd ddechrau'r asesiad crynodol, er enghraifft, mae ymgeisydd nad yw ar y lefel ofynnol i gyflawni a bodloni'r gofynion asesu'n llwyddiannus yn debygol o ofyn am ragor o arsylwadau wedi'u hasesu er mwyn bodloni'r gofynion asesu llawn. Byddai angen i'r ymgeisydd gynllunio a pharatoi'r arsylwadau asesu crynodol ychwanegol hyn, er mwyn llwyddo i sicrhau ehangder y dystiolaeth sy'n ofynnol o gynnwys y cymhwyster. Mae hyn yn rhoi baich ychwanegol ar yr ymgeisydd, yn ogystal â straen gormodol, ac ymestyn y cyfnod asesu o bosibl.

Er nad yw'n ofyniad gorfodol, mae'r dull **ymarfer gorau** a nodir isod wedi cael ei ddarparu i gefnogi canolfannau gyda ffordd o gadarnhau bod ymgeiswyr wedi paratoi'n llawn ar gyfer yr asesiad crynodol. Nod y broses hon yw cefnogi ymgeiswyr i ddechrau ac ymgymryd â'r daith asesu crynodol yn hyderus, gan eu cefnogi a sicrhau eu bod yn gallu dangos eu sgiliau hyd eithaf eu gallu.

Lle nad yw'r dull ymarfer gorau hwn wedi cael ei fabwysiadu, dylai fod gan ganolfannau broses ar waith sy'n rhoi hyder bod ymgeiswyr a gyflwynir ar gyfer asesiad yn barod i ymgymryd â'r asesiad, gan nodi rolau'r rheolwr a'r asesydd fel y nodir isod.

***Rôl y rheolwr***

Fel rheolwr, mae gennych rôl i ddatblygu'r ymgeiswyr rydych yn eu cefnogi, a helpu i nodi'r pwynt pan fyddan nhw'n barod i'w hasesu o ran eu cymhwysedd i ymarfer.

Mae'n bwysig eich bod yn datblygu ac yn cynnal perthynas waith gref â'r aseswr drwy'r cyfnod pan gyflwynir y cymhwyster; drwy ddefnyddio ei brofiad a'i arbenigedd gellir helpu i ategu eich argymhellion ar y pwynt y bydd ymgeisydd yn barod i gael ei asesu.

***Rôl yr aseswr***

Fel aseswr, mae gennych rôl a chyfrifoldeb i gymhwyso eich arbenigedd yn y maes asesu, er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn ddigon parod i gael eu hasesu. Yn y pen draw, byddwch yn gyfrifol am gadarnhau'r pwynt pan fydd y penderfyniad yn cael ei wneud bod ymgeisydd yn barod i gael ei asesu.

## Dull ymarfer gorau

Mae'r dull a ddangosir yn y tabl isod yn ddull ymarfer gorau (er nad yw'n hanfodol) o ran sut gall y rheolwr a'r asesydd gefnogi ei gilydd er mwyn dilysu parodrwydd ymgeisydd at ddibenion asesu.

Anogir canolfannau'n gryf i ddilyn y broses hon er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ymgeiswyr gyflawni'r asesiad ymarferol ar gyfer y cymwysterau hyn yn llwyddiannus.

**Cam 1**

Cyn y cyfnod dysgu, dylai'r rheolwr drafod â'r aseswr yr amserlen ddisgwyliedig i baratoi ymgeisydd i'w asesu; bydd yn cynnwys nodi'r mathau o dystiolaeth barhaus y gall y rheolwr eu defnyddio i nodi cynnydd yr ymgeisydd, ac a fydd yn magu hyder ym 'mharodrwydd' yr ymgeisydd.

Dylai'r rheolwr ddefnyddio pwyntiau cyswllt rheolaidd gyda'r ymgeisydd er mwyn asesu ble mae wedi cyrraedd ar ei daith ddysgu.

Nodir pwynt cyswllt tua diwedd y cyfnod rhagweledig hwn, pan fydd y rheolwr a'r aseswr yn gallu cytuno i gwrdd i drafod cynnydd presennol yr ymgeisydd, a cheisio gwneud penderfyniad ynghylch ei 'barodrwydd'.

*Os yw'r rheolwr yn cefnogi sawl ymgeisydd, dylai'r drafodaeth hon ystyried y ffaith na fydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn 'barod' ar yr un pryd. Gallai hyn ddigwydd am sawl rheswm, e.e. gwahaniaethau yn lefel profiad blaenorol neu fod mewn gweithle cyn astudio'r cymhwyster.*

**Cam 2**

Bydd pwynt cyswllt yn digwydd pan fydd y rheolwr a'r aseswr yn cwrdd i drafod 'parodrwydd' yr ymgeisydd. Dylai'r rheolwr weithio gyda'r aseswr fel eu bod yn hyderus o ran eu penderfyniad am ei barodrwydd, e.e. drwy drafod agweddau ar waith neu ymarfer yr ymgeisydd sydd yn eu barn nhw yn dangos ei fod yn barod, neu p'un a ydyn nhw'n meddwl bod angen mwy o amser arno i ddysgu.

Yn y cyfarfod hwn, efallai y bydd yr aseswr am weld mwy o dystiolaeth gan y rheolwr i gefnogi ei farn am ei 'barodrwydd', a gall ofyn cwestiynau manwl am ymarfer presennol yr ymgeisydd er mwyn meithrin ei ddealltwriaeth o allu'r ymgeisydd.

Os yw'r rheolwr a'r asesydd yn gyfforddus â phenderfyniad bod yr ymgeisydd yn barod i gael ei asesu; dylid trefnu amser gyda'r asesydd i gynnal dau archwiliad parodrwydd i arsylwi'r ymgeisydd yn ymarferol. Dylai'r ddau achlysur hyn gynnwys gweithgareddau a fydd yn cadarnhau gallu'r ymgeisydd ym meysydd deilliannau dysgu'r uned egwyddorion (200/300). Dylai'r rheolwr a'r aseswr sicrhau bod yr archwiliadau parodrwydd arfaethedig yn bodloni gofynion cyfrinachedd, a bod cydsyniad priodol yn cael ei roi gan blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr cyn bod mewn sefyllfa wedi'i harsylwi. Awgrymir gadael o leiaf wythnos rhwng y ddau archwiliad parodrwydd.

*Os bydd anghytundeb rhwng y rheolwr a'r aseswr o ran 'parodrwydd' yr ymgeisydd, yr aseswr fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda pharamedrau clir wedi'u pennu o ran y dysgu ychwanegol a'r dystiolaeth o ddysgu sydd eu hangen er mwyn cefnogi cadarnhad o 'barodrwydd'.*

Cyn yr ddau archwiliad parodrwydd a arsylwyd, dylid cael sgwrs gyda'r ymgeisydd er mwyn ei hysbysu y bydd yn cael dau arsylwad ymarferol i'w cynnal gan aseswr cyn dechrau'r asesiad ffurfiol. Dylai'r ymgeisydd gael gwybod am y broses a'r rheswm dros ei chynnal; bydd hefyd yn gyfle iddo drafod yr hyn mae'n ei feddwl a'i deimlo am y broses, gan gynnwys codi unrhyw bryderon a fyddai'n gallu bod ganddo. Os oes gan yr ymgeisydd bryderon nad yw'n barod eto, dylid trafod y rhain a rhoi sylw iddynt. Hefyd, dylid rhoi gwybod i'r ymgeisydd nad oes angen iddo gynllunio na pharatoi unrhyw beth er mwyn cynnal y ddau archwiliad parodrwydd.

Yn ogystal, dylid briffio'r ymgeisydd bod yr archwiliadau parodrwydd cadarnhau ynglŷn â'u hymarfer yn y modd hwn yn gefnogol o ran dangos iddynt beth i'w ddisgwyl o'r arsylwadau a aseswyd. Gall hyn gefnogi datblygiad hyder ymgeiswyr, eu paratoi ar gyfer cael eu harsylwi yn yr amgylchedd gwaith a sicrhau eu hyder yn yr asesiad crynodol. **Dylid atgoffa ymgeiswyr nad yw'r ddau archwiliad parodrwydd a arsylwyd yn cyfrannu at eu hasesiad crynodol terfynol.**

*Os bydd gan yr ymgeisydd bryderon sylweddol ynghylch a yw'n barod i'w asesu; dylai'r rheolwr a'r aseswr ystyried y rhesymau drostyn nhw; os credir bod sail iddyn nhw, dylid caniatáu mwy o ddysgu/datblygu, gan ailddechrau'r broses yn ddiweddarach pan fydd yr ymgeisydd yn gyfforddus.*

**Cam 3**

Bydd yr aseswr yn cynnal o leiaf ddau arsylwad seiliedig ar ymarfer er mwyn cefnogi'r penderfyniad bod yr ymgeisydd yn barod i'w asesu; bydd yr arsylwadau hyn yn seiliedig ar uned orfodol 200/300; dylai'r aseswr geisio cadarnhau bod ymarfer yr ymgeisydd yn dangos lefel dderbyniol o hyder ymarferol yn y meysydd canlynol:

1. Egwyddorion a gwerthoedd
2. Iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad
3. Ymarfer proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant
4. Diogelu plant
5. Iechyd a diogelwch

*Os na fydd yr aseswr yn credu bod yr ymgeisydd yn 'barod' yn dilyn unrhyw un o'r arsylwadau hyn, dylai siarad â'r rheolwr a'r ymgeisydd am ba ddysgu neu hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen, a dylai drefnu pwynt cyswllt arall er mwyn cadarnhau bod hyn wedi digwydd. Os bydd yr aseswr yn fodlon ar gynnydd yr ymgeisydd ar y cam hwn, dylid trefnu arsylwad(au) ymarferol pellach.*

**Sylwch** mai pwrpas y ddau archwiliad parodrwydd hyn yw rhoi cadarnhad bod yr ymgeisydd yn gweithio ar lefel sy'n adlewyrchu gofynion cynnwys y cymhwyster. Nid yw'r rhain yn arsylwadau asesu caeth – ond yn hytrach yn ffordd o gefnogi'r asesydd i gadarnhau hyder yng ngallu'r ymgeisydd ynglŷn â chynnwys yr egwyddorion. Disgwylir y bydd y ddau archwiliad parodrwydd yn debygol o fod yn fyrrach na'r arsylwadau a aseswyd.
Nid yw tystiolaeth o ddau wiriad parodrwydd yn dyblygu nac yn cymryd lle'r pedwar arsylwad asesydd sy'n ofynnol fel rhan o'r asesiad crynodol. Eu pwrpas yw dangos i'r asesydd y gall yr asesiad ddechrau drwy ddangos tystiolaeth o lefel dderbyniol o ymarfer yr uned orfodol (200/300). Dylai'r asesydd gadw cofnod o'r gwiriadau parodrwydd. Dylai hyn ddarparu digon o wybodaeth am sut mae'r asesydd wedi cadarnhau parodrwydd, er nad oes gofyniad wedi'i ddiffinio ar gyfer nodiadau ffurfiol neu strwythuredig neu arsylwadau o'r gwiriadau parodrwydd sydd i'w cadw neu eu cadw gan yr asesydd. Dylid darparu unrhyw adborth neu wybodaeth a fyddai'n cefnogi datblygiad yr ymgeisydd yng Ngham 4.

**Cam 4**

Ar ôl i'r ddau archwiliad parodrwydd gael eu cwblhau'n llwyddiannus, a phan fydd y rheolwr a'r aseswr yn hyderus bod yr ymgeisydd wedi cyrraedd y cam gofynnol ar ei daith; dylid trafod â'r ymgeisydd y deilliant a'i barodrwydd i gael asesiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod gan yr ymgeisydd hyder yn ei allu ei hun, a'i fod yn barod i ddechrau'r tasgau asesu – neu, i'r gwrthwyneb, iddo godi pryderon am feysydd llai sicr, ac i'r rhain gael eu trafod a'u datrys.

# Adran 4:

# Cynnal yr asesiad:

## Cefnogi'r ymgeisydd ar y cam asesu olaf

Gall y syniad o asesiad godi ofn ar ymgeisydd, felly mae'n bwysig sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses yn agored fel bod yr asesiad yn un cadarnhaol, gan roi'r cyfle i'r ymgeisydd ddangos yn llawn ei allu i gyflawni rôl gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Yn yr adran hon, y bwriad yw ceisio amlinellu natur ymarferol cynnal asesiad o'r ymgeisydd, ond mae hefyd yn ystyried sut y gall y rheolwr/aseswr helpu i sicrhau bod y broses asesu yn rhedeg yn esmwyth, a bod taith yr ymgeisydd drwy'r broses yn ddidrafferth.

## Y cyfnod asesu

Fel rheol, bydd yr asesiad yn digwydd ar ddiwedd rhaglen ddysgu, gan baratoi'r ymgeiswyr i fod yn ymarferwyr cymwys. Ar gyfer y cymwysterau hyn, mae'r cyfnod wedi'i ddiffinio fel:

**Lefel 2 –** chwe mis olaf y rhaglen ddysgu
**Lefel 3** – deg mis olaf y rhaglen ddysgu

Mae'r amserlenni hyn wedi'u pennu fel bod digon o amser i gynllunio a gweithredu pedwar cyfle/profiad ym mhob tymor. Dylai'r cyfleoedd/profiadau hyn ei gwneud yn bosibl i gynhyrchu digon o dystiolaeth ym mhob uned a asesir.

Dylid nodi mai canllaw i reolwyr ac aseswyr o ran yr isafswm amser y disgwylir y bydd ei angen i gynnal yr asesiad yw'r amserlenni hyn. Byddai modd i'r asesiad gael ei gynnal dros gyfnod hirach o amser os oes angen, e.e. os bydd ymgeisydd yn gweithio llai o oriau a bod angen mwy o amser arno i ddarparu digon o dystiolaeth ar gyfer asesiad dilys.

Os rhagwelir y bydd angen mwy o amser i gynnal asesiad na'r hyn a nodir yma, dylai hyn gael ei drafod yn y cyfarfod pwynt cyswllt cychwynnol, gan nodi amserlen glir ofynnol yn seiliedig ar yr amgylchiadau dan sylw. Dylai'r amserlen hon gael ei chadarnhau gyda'r ymgeisydd, gan addasu'r amserlen weithgareddau er mwyn adlewyrchu'r amser sydd ei angen.

Ni roddwyd amserau ar gyfer tasgau neu weithgareddau penodol eto. Disgwylir i reolwyr/aseswyr helpu ymgeiswyr i ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer pob elfen o'r asesiad, a sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i gefnogi'r deilliant asesu, wrth hefyd reoli'r amser y bydd yr ymgeisydd yn ei dreulio o'i weithgareddau gwaith bob dydd ar yr un pryd.

## Cyn yr asesiad

Mae'n bwysig sicrhau bod ymgeiswyr yn gwbl eglur ar ddechrau'r broses asesu. Felly, rhaid i reolwyr ac aseswyr fynd ati i sicrhau eu bod yn deall y gofynion asesu yn llawn; ynghyd â'u rolau eu hunain yn y broses a sut y gallan nhw gefnogi'r ymgeisydd drwy ei broses asesu orau.

Argymhellir bod y rheolwr a'r aseswr yn darllen ac yn deall y ddogfennaeth asesu sydd ar gael iddyn nhw cyn cyfarfod â'r ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Adolygu briff a thasgau'r ymgeisydd
- Darllen y pecyn asesu
- Darllen canllawiau cyflwyno'r cymhwyster

Dylai'r rheolwr a'r aseswr geisio cwrdd cyn cyflwyno'r ymgeisydd i'r asesiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r ddwy rôl sicrhau eu dealltwriaeth o'r gofynion asesu; ystyried sut y bydd y dystiolaeth a gynhyrchir yn asesu'r deilliannau gofynnol a chynnig cyfle pwysig i gadarnhau sut y bydd eu rolau yn cefnogi ac yn ategu ei gilydd fel partneriaeth ar gamau gwahanol taith asesu'r ymgeisydd.

## Casglu tystiolaeth

Mae'r tasgau strwythuredig yn darparu fframwaith i gynhyrchu'n gyfannol dystiolaeth sy'n cwmpasu cymaint o gynnwys y cymhwyster â phosibl. Mae'r grid mapio yn y Pecyn Asesu yn rhoi syniad o'r ymdriniaeth sy'n ddisgwyliedig ym mhob tasg, yn ogystal â'r agweddau fydd yn weddill ac y bydd angen eu casglu drwy weithgareddau gwaith naturiol ar ffurf portffolio. Dylai'r rheolwr/aseswr ystyried y grid mapio, ar y cyd ag unedau dethol yr ymgeisydd, er mwyn nodi ble maen nhw'n credu bod tystiolaeth i'w chael fel rhan o'r asesiad. Dylen nhw nodi'n benodol ble mae tystiolaeth i'w chael o fewn y tasgau strwythuredig neu ble y rhagwelir y bydd angen casglu tystiolaeth drwy'r portffolio.

Dylid nodi y dylai elfen drafod yr asesiad gael ei hystyried yn weithgaredd sy'n seiliedig ar unrhyw feysydd deilliannau lle nad oes tystiolaeth ar eu cyfer, neu i dargedu unrhyw ddeilliannau y rhagwelir na fydd tystiolaeth ar eu cyfer drwy'r tasgau neu'r portffolio. Dylid ei defnyddio i ddechrau i gadarnhau dealltwriaeth o ddeilliannau gwybodaeth, ac nid i gadarnhau elfennau ymarfer y dylid bod wedi arsylwi arnynt drwy'r tasgau.

Rhagwelir mai rhan fach o'r asesiad cyffredinol fydd y drafodaeth, ac os bydd yr aseswr mewn sefyllfa lle bydd y dystiolaeth i'w chasglu o fewn yr elfen hon yn rhy drwm, dylai adolygu hyn, a cheisio cyngor os oes angen.

# Adran 5:
## Ar ôl yr asesiad

Prif nod asesiad yw darparu ffordd ddilys o gadarnhau bod ymgeisydd yn gymwys i ymarfer a chyfrannu at wella canlyniadau llesiant plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

**Adborth**
Er mai prif bwrpas asesiad yw nodi cymhwysedd ymgeisydd, cydnabyddir y gall y broses asesu fod yn gyfle gwych i gefnogi ymhellach ddatblygiad a chynnydd ymgeisydd ar ôl y cymhwyster. Mae adran adborth crynodol i'w chael ar y ffurflen adborth yn y **Pecyn Asesu**. Pwrpas yr adran hon yw sicrhau bod adborth ysgrifenedig yn cael ei roi i ymgeiswyr cymwys ar feysydd lle byddai datblygu pellach yn cael ei annog fel DPP pellach. Dylai'r adborth hwn gael ei roi mewn ffordd adeiladol a datblygiadol, lle anogir yr ymgeisydd i ddefnyddio ei fyfyrdodau ei hun ar yr hyn yr arsylwyd arno – a gellir ei ystyried yn ffordd o helpu'r ymgeisydd i fynd y tu hwnt i'r asesiad ac i'r amgylchedd gwaith.

# Adran 6:

## Cwestiynau Cyffredin

Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gydag unrhyw gwestiynau cyffredin sy'n codi o'r canolfannau drwy'r sesiynau cynefino a mynd yn fyw a gynhelir gan y Consortiwm.